# Grŵp Trawsbleidiol ar Undod rhwng y Cenedlaethau

## 18 Chwefror 2022

**Presennol**

Delyth Jewell AS, Cadeirydd

Josh Hayman, Ysgrifenyddiaeth

Andy Wallsgrove, Comisiynydd Plant Cymru

Carole Philips, Kidscape

Deborah Morgan, Prifysgol Abertawe

Dereck Roberts, NPC Cymru

Heather Ferguson, Age Cymru

Laraine Bruce

Liz Jones, Prifysgol Abertawe

Michelle Lewis, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mirain Llwyd Roberts, Cyngor Gwynedd

Neil Williams, Gofal a Thrwsio Cymru

Nia Richards, Tybed

Sharon Ford, Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Stephanie Green, Prifysgol Abertawe

Steve Milsom, COPA

Tina Morrow, Shared Lives Plus

Tom Magner, Carers World Live

**Ymddiheuriadau**

Carol Maddock, Prifysgol Abertawe

Catrin Hedd Jones, Prifysgol Bangor

Marie-Clare Hunter

Owen Peredur Griffiths AS

Philippe Demougin, Hafod

Phoebe Brown, Caffi Trwsio Cymru

Sue Egersdoff, Ready Generations

Tim Crahart, Shared Lives Plus

**1. Croeso a Chyflwyniadau**

Hysbysodd DJ y grŵp na allai Phoebe Brown ymuno â ni felly bydd ei heitem yn cael ei symud i’r cyfarfod nesaf.

**2. Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Cymeradwywyd y cofnodion gan y grŵp.

**2. Diweddariad ar waith blaenoriaeth Rhagfarn ar Sail Oedran**

Rhoddodd SG amlinelliad o’r gwaith y mae’r is-grŵp rhagfarn ar sail oedran yn gweithio arno yn awr - cystadleuaeth ffotograff a stori i ddangos y cysylltiadau cadarnhaol sydd wedi’u sefydlu rhwng y cenedlaethau yn ystod y pandemig. Mae wedi cwrdd â thîm curadu’r Senedd yr wythnos hon i weld pa gyfleoedd y gallant eu cynnig - y gobaith yw bod amser yn yr hydref felly rydym yn gobeithio lansio’r gystadleuaeth yn ystod yr Wythnos Pontio’r Cenedlaethau er mwyn gallu casglu’r cynigion ar gyfer yr hydref.

Mae SG yn cael cyfarfod hefyd gyda CADR a'r Amgueddfa Genedlaethol i weld sut y gallai'r sefydliadau hyn gefnogi'r gwaith. Byddai SG yn croesawu trafodaeth ar bwy fydd ar y panel beirniadu, sut y gall aelodau rannu'r gystadleuaeth a lle y gellir cyflwyno cynigion.

Ychwanegodd ML eu bod yn gobeithio lansio ar y dydd Mawrth yn ystod Wythnos Pontio'r Cenedlaethau a chynnal arddangosfa rhwng 1 Hydref ac 20 Tachwedd i gyd-fynd â Dyddiau Pobl Hŷn a Phlant y Cenhedloedd Unedig.

Nododd SM bod Cyngor Caerffili yn ceisio sicrhau statws cymuned oed-gyfeillgar ac maent yn cynnal arolwg gyda phlant ysgolion cynradd ymgysylltu ag aelod hŷn o'u teulu. Bydd yn anfon dolen at JH ar gyfer unrhyw un sydd eisiau cysylltu i drafod hyn ymhellach. **CAM GWEITHREDU: JH i anfon dolen at y grŵp.**

Holodd DJ a fyddai'r grŵp yn fodlon rhannu'r wybodaeth am y gystadleuaeth gyda'u rhwydweithiau. Cytunodd y grŵp. Holodd LB a yw'n bosibl cyflwyno'r storïau mewn gwahanol fformatau ac a fyddai'n bosibl eu dathlu, yn ogystal â thrwy'r gystadleuaeth. Nododd ML mai dim ond y ffotograffiaeth yw'r elfen gystadleuol ac y byddai'r storïau yn ategu'r rhain.

Holodd DR ynghylch sut y gallwn rannu'r wybodaeth hon gydag ysgolion? Nododd ML eu bod yn gobeithio defnyddio'r consortia i ddosbarthu'r wybodaeth i ysgolion drwy eu rhwydweithiau.

Awgrymodd JH y dylai cynrychiolydd gwleidyddol o bob plaid, y Comisiynwyr a pherson ifanc a pherson hŷn fod ar y panel beirniadu. Cadarnhaodd AW y bydd yn gofyn i'r Comisiynydd Plant newydd gymryd rhan. Gofynnodd DJ am syniadau ar gyfer person iau a pherson hŷn i fod ar y panel beirniadu. Awgrymodd ML y dylid cadarnhau'r panel cyn y lansiad. Awgrymodd MLR yn y sgwrs y gallai Aelod o'r Senedd Ieuenctid gymryd rhan.

### 3. Wythnos Ryngwladol Pontio'r Cenedlaethau

Diolchodd MLR i bawb a fynychodd y digwyddiad lansio ym mis Chwefror a bod Heléna Herklots wedi cynrychioli Cymru yn y lansiad. Rhannodd y wefan Wythnos Ryngwladol Pontio'r Cenedlaethau a'r adnoddau sydd ar gael yno. Bydd MLR yn rhannu dolen i bobl gofrestru ar gyfer yr Wythnos ac i'w logo gael ei gynnwys ar y wefan. Gall MLR ddarparu fersiynau Cymraeg hefyd o'r deunyddiau cyfryngau cymdeithasol sydd ar gael ar y wefan.

Dywedodd MLR y byddai hefyd yn hoffi cynnal digwyddiad cenedlaethol yng Nghymru ac estynnodd wahoddiad i unrhyw un a fyddai'n awyddus i drafod hyn gyfrannu mewn cyfarfod arall i drafod beth y gellir ei wneud.

### 4. Carers World Live

Cyflwynodd TM ei hun fel cyflwynydd y brif raglen ar gwestiynau gofalwyr. Nododd bwysigrwydd cyflwyno'r stori i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gwleidyddol a bod y sefydliad yn cynnal sianel deledu ar-lein ond y byddai'n ail-lansio cyn hir fel gorsaf radio. Rhoddodd TM amlinelliad o'r gwaith mae wedi'i wneud gyda'r orsaf a chynigiodd i gyflwyno

crynodeb o’r gwaith y mae’r grŵp yn ei ystyried. Dywedodd TM y gallai unrhyw un gysylltu gyda storïau neu faterion yr hoffent eu codi.

Gellir cysylltu â Tom ar: news@carersworldlive.co.uk

**5. Diweddariad ar Unigrwydd ac Arwahanrwydd**

Nododd DM y gwaith maent yn ei wneud i ddod â phobl ifanc yn eu harddegau a phobl hŷn at ei gilydd i drafod y profiad o dyfu i fyny mewn ardal a chofnodi rhywfaint o’r hanes byw. Mae hyn wedi dechrau yn dilyn gwaith ymchwil a ddangosodd nad yw pobl yn adnabod eu cymdogion na’u cymunedau. Mae’n gobeithio gallu ei lansio ym mis Mehefin a dangos ffilm y mae LB wedi bod yn gweithio arno.

Dywedodd TM bod Ymddiriedolaeth Llyfrau’r Alban wedi cynnal prosiect adrodd storïau digidol – awgrymodd y gellid dysgu o’r broses maent wedi’i chyflawni ac y gallai fod yn fuddiol cael sgwrs gyda hwy ynglŷn â’r hyn maen nhw wedi’i wneud. Nododd DM y gallai ddarparu cymorth hyfforddiant i bobl ifanc yn eu harddegau a chynigiodd TM ei gymorth ef hefyd.

Nododd LB ei phrofiad helaeth o ddefnyddio storïau i rymuso pobl a phwysigrwydd edrych y tu hwnt i eiriau ar ddull cyfathrebu o ddewis pobl. Nododd y grym creadigol yng Nghymru a’r angen i ddefnyddio’r adnodd hwnnw. Soniodd am y grŵp llawr gwlad y mae wedi bod yn gysylltiedig â hwy a’i bod eisiau gwneud rhywbeth gyda’r cyfraniadau mae pobl wedi’u gwneud i’r grŵp.

Ychwanegodd DM ei bod yn cael trafodaethau gyda Phrifysgol Abertawe i weld a oes unrhyw gyllid ar gael i gefnogi’r gwaith hwn.

Nododd LJ bod prosiect Troedyrhiw y mae’n gweithio arno wedi datblygu technolegau i integreiddio’r adnoddau sydd ganddynt yno, gan gynnwys ‘siarad dros’ ffotograffau a thrafod yr unigolion sy’n cael eu trafod.

Nododd TM bwysigrwydd gwneud ffilm *am* wneud ffilm, ac y gallai hyn fod yn ffordd dda o adrodd stori, ond mae’n golygu llawer o ffilmio.

**6. Unrhyw Fater Arall**

Dywedodd JH bod yr Athro Bobby Duffy yn mynychu cyfarfod nesaf y Grŵp ar 9 Mai i drafod ei ymchwil sy’n herio mythau ac ystrydebau ynghylch y cenedlaethau.

Soniodd TM am y gwaith mae Homeshare yn ei wneud yng Nghymru a’u bod yn ymweld ag Abertawe a lleoliadau yng ngogledd a chanolbarth Cymru.